**Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol**
—
**Culture, Communications, Welsh Language, Sport, and International Relations Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDiwylliant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDiwylliant
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCulture@senedd.wales
senedd.wales/SeneddCulture
0300 200 6565

Y Farwnes Grey-Thompson
Cadeirydd
Brian Davies
Prif Weithredwr
Chwaraeon Cymru

3 Chwefror 2023

Honiadau ynghylch Undeb Rygbi Cymru

Annwyl Tanni and Brian

Rwy'n ysgrifennu atoch mewn perthynas â'r honiadau sydd wedi'u gwneud yn erbyn Undeb Rygbi Cymru mewn rhaglen a ddarlledwyd ar BBC Cymru ar 23 Ionawr 2023. Yn sgil sesiwn dystiolaeth y Pwyllgor gydag Undeb Rygbi Cymru a Llywodraeth Cymru ddoe, hoffai'r Pwyllgor eich gwahodd i sesiwn dystiolaeth a gynhelir rhwng 09.30 a 10.30 ddydd Mercher 15 Chwefror 2023.

Bydd y sesiwn hon yn gyfle i drafod y materion sydd wedi codi ers i'r rhaglen gael ei darlledu, a bydd yn gyfle hefyd i'r Pwyllgor ddeall yn well rôl a gwaith Chwaraeon Cymru o ran y camau gweithredu sydd eisoes wedi cael eu cyhoeddi, a llywodraethiant ym maes chwaraeon yn fwy cyffredinol.

Byddwn yn ddiolchgar pe byddech yn gallu cadarnhau eich presenoldeb erbyn 10.00 ddydd Mercher 8 Chwefror 2023.

Yn gywir,

Delyth Jewell MS
Cadeirydd y Pwyllgor

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

Senedd Cymru
Welsh Parliament

We welcome correspondence in Welsh or English.